Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| **RHYBUDD 0 GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** | | **INVESTMENTS AND CONTRACTS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2015 at 10.30 o'r gloch y.b.** | | **WEDNESDAY, 8 JULY, 2015 at 10.30 a.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mairwen Hughes 01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chairman of the Trust** | **T.V. Hughes** |
| **Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chairman of the Trust** | **Aled M. Jones** |

**Lewis Davies**
**R Dew**
**Jeff Evans (Cadeirydd/Chair)**
**Jim Evans (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**
**Vaughan Hughes**
**Victor Hughes**
**Llinos Medi Huws**
**Richard Owain Jones**
**Dylan Rees**
**P S Rogers**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Bydd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2014 yn cael eu cyflwyno.

3 **GRANTIAU BLYNYDDOL 2015/16** (Tudalennau 9 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

## PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mri. Lewis Davies, Richard A. Dew, Jeff M. Evans, Jim Evans, Vaughan Hughes, T. Victor Hughes, R.O. Jones, P.S. Rogers. |
| **WRTH LAW**: | Ysgrifennydd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo Dros Dro (BHJ),<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid)(BD),<br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Mrs. Llinos M. Huws. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr. Aled M. Jones - Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. Jeff Evans yn Gadeirydd.

Diolchodd i'r Aelodau am eu hyder ynddo.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. Jim Evans yn Is-Gadeirydd.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. Lewis Davies ddiddordeb yng nghais 29 - Canolfan Gymunedol Llanfaes a chais 45 - Cae Chwarae Llangoed. Gadawodd Mr. Davies y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y ceisiadau.

Datganodd Mr. Peter S. Rogers ddiddordeb yng nghais 18 - Institiwt Pritchard Jones Cyf., cais 20 - Malltraeth Ymlaen Cyf., a chais 40 - Ysgol Parc y Bont - Cymdeithas Rhieni Athrawon. Arhosodd Mr. Rogers yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth a'r pleidleisio ar y ceisiadau.

**4 GRANTIAU BLYNYDDOL 2013/14**

Cyflwynwyd – adroddiad ar ran y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried ceisiadau oedd yn berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Gwneir y dyraniadau yn flynyddol o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r categorïau canlynol o brosiectau:-

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychan)
- Grantiau Eraill (yn bennaf grantiau bychan unwaith yn unig)

Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill, 2014 penderfynodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn i awdurdodi'r Pwyllgor hwn i gymeradwyo'r holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn yr amser cau ac a oedd yn

cydymffurfio â meini prawf cyllido'r Ymddiriedolaeth heb ragfarn i unrhyw benderfyniadau mewn blynyddoedd i ddod a bod rhan o'r gronfa gyfalaf yn cael ei defnyddio i'r pwrpas hwn pe bai angen hynny. Dywedodd yr Ysgrifennydd bod 5 cais wedi ei dderbyn ar ôl y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau am grant. Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn na ddylid ystyried y ceisiadau hyn.

Roedd y Swyddogion perthnasol o'r adrannau penodol wedi ystyried ac wedi blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd i'r graddau y gellid gwneud hynny ac yn gyson â phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth, y meini prawf a sefydlwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac o fewn swm y cyllid oed ar gael i bob dyraniad. Roedd argymhellion y Swyddogion i'w gweld yn Atodiadau A a B oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd system gyfeirio ar y cyd wedi ei defnyddio ar gyfer y grantiau a roddwyd gerbron y pwyllgor hwn ac am geisiadau grant i Gronfa'r Eglwys yng Nghymru; bydd unrhyw fylchau yn y rhifau cyfeirnod wedi eu hachosi oherwydd i'r grantiau hynny gael eu rhoi ymlaen i Gronfa'r Eglwys yng Nghymru yn hytrach nag i'r Ymddiriedolaeth. Nodwyd bod y ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dyrannu Grantiau gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol' gyda chopi ohono ynghlwm fel Atodiad C i'r adroddiad.

**Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon – Grantiau Cyfalaf am 2014/15 fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| 4. Digwyddiadau Carnifal Llanfairpwll | Gwella safon yr ystafelloedd newid a chegin | ***(NIL)***<br>*(Nid y sefydliad yw perchennog yr adeilad ac nid oes ganddo brydles arno)* |
| 5. Canolfan Gymuned Brynsiencyn | I uwchraddio'r system wresogi am un sy'n fwy ynni effeithlon a rhatach i'w redeg | ***£1,844***<br>*(Yn amodol ar ymestyn eu prydles i 21 mlynedd neu fwy yn ystod y cwôt ariannol hwn)* |
| 6. Clwb Dinasyddion Hŷn Millbank | Addasu tolied i'r anabl a thrwsio wal derfyn y tu allan | ***£6,000***<br>*(Hyd at 70% o'r cwôt isaf, uchafswm dyraniad fydd £6,000)* |
| 7. 2474 Cadetiaid Awyr (Cefni) | Uwchraddio systemau cyfrifiadurol fel gall y cadetiaid astudio ac eistedd arholiadau ar y sylabws Cadetiaid Awyr, yn arwain at gymwysterau 4 BAETIWCH. Hefyd i wella'r profiad hedfan | ***£2,320*** |
| 10. Cyfeillion Pentraeth | Creu ardal chwarae saff i'r gymuned leol | ***(NIL)***<br>*(Byddai'r ardal ar libart yr ysgol, ac nid yw felly'n gymwys i dderbyn cyllid)* |
| 11. Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn | Uwchraddio'r neuadd yn Llanfairpwll (gorchudd rhag glaw i'r to) | ***£2,520***<br>*(Neuadd Llanfairpwll yw cartref Sefydliad y Merched cyntaf ym Mhrydain a byddant yn dathlu eu can mlynedd yn 2015)* |
| 13. Parc Ffrindiau Pandy | Llwybr a chylchfan i roi mynediad i gadair olwyn yn y lle chwarae | ***(NIL)***<br>*(Dim digon o wybodaeth gyda'r cais)* |
| 14. Clwb Rygbi Llangefni | Prynu a gosod dugouts | ***(NIL)***<br>*(Dim digon o wybodaeth gyda'r cais)* |

| | | |
|---|---|---|
| 16. Neuadd Eglwys Gymunedol Moelfre | Uwchraddio'r system wresogi | ***(NIL)***<br>*(Dim yn gymwys oherwydd eu bod wedi derbyn)* |
| 18. Institiwt Pritchard Jones Cyf | Gosod ffenestri newydd ym mwthyn rhif 4 | ***(NIL)***<br>*(Dim yn fath o gynllun y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ei gefnogi o'r blaen)* |
| 19. Clwb Rygbi Porthaethwy | Adeiladu ystafell ffitrwydd / storio offer | ***£6,000***<br>*(Yn amodol ar iddynt ymestyn eu prydles i 21 mlynedd neu fwy yn ystod y flwyddyn ariannol hon)* |
| 20. Malltraeth Ymlaen Cyf | I ddatblygu ardal chwarae yng nghymuned Bodorgan | ***(NIL)***<br>*(Dim yn gymwys oherwydd iddynt dderbyn grant yn 2012/2013)* |
| 22. Cymdeithas Chwaraeon Llanfairpwll | Ystafelloedd Newid | ***(NIL)***<br>*(Dim digon o wybodaeth gyda'r cais)* |
| 23. Neuadd Gymuned Bryn Teg | Uwchraddio'r ffenestri a'r drysau tân | ***£4,274*** |
| 27. Cymdeithas Cae Cybi | Gwelliannau i'r ardal chwarae | ***70% o'r cwôt isaf, grant wedi'i chapio ar £3,720*** |
| 28. Cyngor Cymuned Cwm Cadnant | Gwaith trwsio allanol | ***£6,000***<br>*(Cais i ail-rendro rhag i damprwydd ddod i mewn i'r eiddo sydd yn un Restredig Graddfa 2)* |
| 29. Canolfan Gymuned Llanfaes | Gwelliannau i'r Ganolfan yn cynnwys ffenestri, dau ddrws a gwterydd | ***£4,935***<br>*(Yn amodol ar adnewyddu'r brydles i 21 mlynedd neu fwy yn ystod y flwyddyn ariannol hon.  Y rhagamcan isaf a gyflwynwyd yw am £7,050)* |
| 30. Neuadd Bentref Talwrn | Prynu offer, teledu Fawr, Chwaraewr DVD a System Gemau Cyfrifiadur i'r Ystafell Ysgol Feithrin ac OHP a Sgrin Fawr i'r Brif Neuadd.  Ysgoldy'r Feithrinfa yw'r enw a roddwyd i'r ystafell a byddai defnydd cymunedol i'r offer | ***£1,284*** |
| 32. Cymdeithasol Lenyddol Leinws | Cyllid ar gyfer Siaradwyr / Darlithwyr | ***(NIL)***<br>*(Dim yn gymwys a'u cyfeirio at ffynonellau eraill o gyllid)* |
| 33. Canolfan Gymuned Moelfre | Uwchraddio'r cyfleusterau i'r gymuned leol – y safle 5 bob ochr | ***70% o'r cwôt isaf, y grant wedi'i chapio ar £4,756***<br>*(yn amodol ar dderbyn ail gwôt)* |

| | | |
|---|---|---|
| 34. Gwasanaeth Gwirfoddoli Arforol | Prynu deunyddiau hyrwyddol, addysgol, i hyfforddi ac offer diogelwch ar gyfer rhaglen o hyfforddiant cymunedol am ddwy flynedd | ***70% o'r cwôt isaf, y grant wedi'i chapio ar £2,850*** *(Wedi darparu dadansoddiad o'r costau ond angen cyflwyno rhagamcanion gan gyflenwyr)* |
| 38. Clwb Ieuenctid Newry | I brynu offer chwarae i'r clwb | ***70% o'r cwôt isaf, y grant wedi'i chapio ar £1,324*** *(Clwb ieuenctid Gwirfoddol i blant 5-11 oed. Yn amodol ar dderbyn ail gwôt)* |
| 39. Canol Llwyfan Boston | Ail-beintio y tu allan i'r neuadd | ***(NIL)*** *(nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau tuag at ail-beintio)* |
| 40. Ysgol Parc y Bont – Cymdeithas Rhieni Athrawon | Adeiladu llwybr coed a wal goed pêl-doed | ***(NIL)*** *(Mae'r caeau chwarae yn rhan o Ysgol Parc y Bont, ac felly nid ydyw'n gymwys i dderbyn cyllid)* |
| 41. Grŵp Rhwydwaith Cymru Dysgu Awyr Agored Ynys Môn | I redeg 2 ddiwrnod addysgol a 2 ddiwrnod yng Ngŵyl Coedlan Ynys Môn | ***(NIL)*** *(Dim yn gais penodol ac felly ddim yn glir i beth y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio)* |
| 45. Cae Chwarae Llangoed | I brynu Ffrâm Ddringo | ***(NIL)*** *(Diffyg gwybodaeth yn y cais)* |
| 46. Canolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch | Drysau newydd yn ffrynt yr adeilad | ***(NIL)*** *(Dim yn gymwys oherwydd iddynt dderbyn grant yn 2013/2014)* |
| 47. Neuadd Cymuned Benllech a Chyn-filwyr | Uwchraddio a newid gwaith trydan y neuadd a gosod goleuni LED | ***£6,000*** |
| 48. Clwb Cychod Cemaes | Prynu RIB addas (cwch y gellir ei phwmpio) i'w defnyddio fel cwch diogelwch | **£3,500** |
| 49. Pwyllgor Cae Chwarae Tregele | Prynu offer chwarae | ***£6,000*** *(Mae'r Pwyllgor wedi derbyn grantiau eraill o £24,000)* |
| 50. Cyngor Cymuned Llaneilian | Wyneb diogelwch newydd yng nghaeau chwarae Penysarn | ***£2,923*** |
| 52. Cae Chwarae Llanfaethlu | Prynu seti a byrddau i'r parc | ***£2,224*** *(Yr amcangyfrif rhataf a gyflwynwyd yw £3,177)* |

| | | |
|---|---|---|
| 53. Menter Mechell | I helpu i gyllido prynu'r hen Swyddfa Bost yn Llanfechell. Bydd yn cael ei adfer a'i addasu gan breswylwyr y pentref fel siop ym mherchnogaeth y gymuned a chanolfan gymdeithasol i'r gymuned | ***£6,000***<br>*(Mae'r grŵp wedi codi £123,000 tuag at brynu'r adeilad a byddai'r grant yn eu galluogi i bron iawn gyrraedd eu targed)* |
| 54. Cyngor Cymuned Kingsland | Adnewyddu'r system gwres canolog | ***£6,000***<br>*(Yn amodol ar dderbyn prawf o ddeiliadaeth)* |
| 55. Ffrindiau Parc y Gors | Gwelliannau i'r cae chwarae | ***70% o'r cwôt isaf, wedi'i gapio ar £6,000*** |
| 56. Pwyllgor Cae Chwarae Bodffordd | Trwsio'r wyneb diogelwch, ail-dywarchu ardal ar gyfer chwarae pêl-droed, seti newydd, goliau pren a bin sbwriel newydd | ***70% o'r cwôt isaf, wedi'i gapio ar £2,310*** |
| 59. Cyngor Cymuned Tref Walchmai | Adnewyddu a thrwsio cofeb/cloc y pentref | ***£6,000***<br>*(Mae'r Cyngor Cymuned wedi sicrhau grantiau £16,922 o ffynonellau eraill. Gan nad oes ond un cwmni yn yr ardal hon sy'n gwneud gwaith o'r math hwn, nid ydynt ond yn gallu cyflwyno un dyfynbris)* |
| 60. Unigolyn Preifat | Cyhoeddi llyfr o farddoniaeth | ***NIL***<br>*(Nid yw unigolion yn gymwys i dderbyn cyllid)* |
| 62. Clwb Pêl-droed Trearddur | Fel y gall clwb pêl-droed cymunedol gweithredol barhau | ***(NIL)***<br>*(Dim un cynllun penodol wedi ei nodi ar y cais a dim dyfynbrisiau wedi'u cyflwyno)* |
| 64. Cyngor Cymuned Bryngwran | Ffensio newydd i ardal chwarae gymunedol | ***£2,398***<br>*(Bwriad y Cyngor Cymuned yw newid yr hen ffens weiren gyda ffens newydd nid yn unig i wella'r cae chwarae ond i sicrhau diogelwch i'r ardal chwarae plant)* |
| 65. Cyngor Cymuned Penmynydd | Meinciau i'w lleoli mewn gwahanol lefydd yn y gymuned i gerddwyr gael gorffwys ac i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio | ***£945*** |
| 67. Cyngor Cymuned Y Fali | Darparu ystafell gymunedol/gyfarfod | ***(NIL)***<br>*(Wedi derbyn grant yn 2012/13)* |

| | | |
|---|---|---|
| 68. Cymdeithas Rhandiroedd Bryn Du | Prynu politwnel, offer garddio a ffensio er mwyn sefydlu grŵp tyfu llysiau | ***70% o'r cwôt isaf, wedi'i gapio ar £2,051*** |

**Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd i dderbyn grantiau bach 2014/2015 fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| 15. Fforwm Anabledd Taran Cyf. | I allu datblygu papur newydd llafar yn wythnosol ar CD i rhai a nam gweledol ym Môn a bydd hyn yn cynnwys cyrraedd pobl mewn lleoliadau gwledig. Byddai'r cyllid yn galluogi i'r gwasanaeth gael ei ddarparu am 12 mis gyda golwg ar ddod yn hunangynhaliol | ***£1,000*** |
| 17. Ymgeisydd Unigol | I helpu i gyllido'r rhent a threthi siop yng Nghaergybi gyda'r bwriad o werthu eitemau i godi arian i wahanol elusennau. | ***NIL***<br>*(Nid yw unigolion yn gymwys i dderbyn cyllid grant)* |
| 21. Pensiynwyr Llanfaethlu | Fel y gall y grŵp gael gweithgareddau awyr agored h.y. tripiau dydd na allant fynd arnynt eu hunain. | ***NIL***<br>*(Byddai hyn yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ac yn lleihau unigedd. Foddbynnag nid yw'r cais yn darparu gwybodaeth ar sut y cafwyd y swm y gofynwyd amdano (dim dadansoddiad o amcanion cost) ac nid yw chwaith yn nodi'r deilliannau o unrhyw gyllid (dim gwybodaeth ar faint o dripiau / cyrchfanau posibl ac ati)* |
| 31. Yr Eglwys yng Ngymru – Plwyf Biwmares | I wella profiad yr ymwelydd i'r saith eglwys ym Miwmares drwy ddarparu byrddau arddangos hanesyddol a chyhoeddi llyfryn | ***70% o'r costau gyda'r grant wedi'i chapio ar £1,000*** |
| 35. Esgobaeth Bangor | Cofnodiadau Archeolegol o Gladdfeydd Alabaster 14 Ganrif a darparu byrddau dehongli dwyieithog am y claddfeydd, hanes teulu'r Tuduriaid ac Eglwys St. Gredifael, Penmynydd | ***70% o'r costau gyda'r grant wedi'i chapio ar £1,000*** |
| 44. Partneriaeth Gymunedol Porthyfelin | Arian cyfatebol tuag at y prosiect CHIME *(Community Heritage Initiative for Maritime Engagement)* | ***70% o'r costau gyda'r grant wedi'i chapio ar £1,000*** |
| 51. Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd | I osod cyflenwad dwr parhaol i'r fynwent yn Llannerch-y-medd | ***(NIL)*** |

| | | |
|---|---|---|
| 58. Cyngor Tref Amlwch | I ymestyn mynwent y dref | ***(NIL)***<br>*(Ni chyllidwyd gwaith ar fynwentydd o'r blaen)* |

**PENDERFYNWYD:-**

- **cymeradwyo'r symiau fel a nodwyd uchod (£x) [gyferbyn a'r symiau a argymhellwyd], gyda hynny ar raddfa grant o 70%.**

- **na fyddai'r ceisiadau hwyr a dderbyniwyd yn cael eu hystyried.**

- **Diolch i Swyddogion am eu gwaith caled yng nghyswllt y ceisiadau hyn.**

Dangoswyd plac yn y cyfarfod, sef plac i gydnabod derbyn cefnogaeth ariannol gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Nododd yr Ysgrifennydd y byddai disgwyl i'r sefydliadau sy'n derbyn cefnogaeth ariannol arddangos y plac mewn cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth a gawsant gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

**MR. J.M. EVANS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **8 GORFFENNAF 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GRANTIAU BLYNYDDOL 2015/16** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **AMLINELLU'R CEISIADAU GRANT AM 2015/16** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **CYTUNO AR DDYRANNU GRANTIAU AM 2015/16** |

**1.** Ym mis Mawrth eleni, rhoddwyd hysbysebion yn y wasg leol yn gwahodd ceisiadau grant gan fudiadau gwirfoddol a mudiadau eraill. Defnyddir ffurflen gais safonol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ogystal â'r Gronfa Degwm. Y dyddiad olaf derbyn ceisiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 oedd 8 Mai 2015.

**2.** Pan dderbynnir y ceisiadau gan Wasanaeth Cyfrifeg y Cyngor Sir, maent yn cael eu prosesu ac wedyn eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac i'r gronfa berthnasol.

**3.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried y ceisiadau hynny sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Bydd y ceisiadau eraill sy'n berthnasol i Gronfa'r Degwm yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn, nid yr Ymddiriedolaeth hon.

**4.** Gwneir dyraniadau yn flynyddol o'r Pwyllgor yma i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
Grantiau Eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

**5.** Yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2015, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn y byddai'r uchafswm grant ar gyfer Grantiau Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon yn codi o £6,000 i £8,000. Bydd yr uchafswm ar gyfer grantiau bychain yn parhau i fod yn £1,000 gydag uwch derfyn o 80%. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

**6.** Mae swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiadau A a B o'r adroddiad hwn. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

**7.** Mae'r ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac mae copi yn Atodiad C.

**8.** Mae Atodiad A yn delio â grantiau dan y pennawd 'Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon' arferol. Yr argymhelliad yw cefnogi grantiau i geisiadau sy'n gymwys ar raddfa 70% o'r grantiau dilys, hyd at uchafswm o £8,000. Mae Atodiad B yn delio â'r grantiau 'Grantiau Bychain'; yr argymhelliad yw cefnogi grantiau i geisiadau sy'n gymwys ar raddfa o 70% o'r grantiau dilys, hyd at uchafswm o £1,000. Byddai hyn yn costio cyfanswm o £102,766 os yw argymhellion y swyddogion yn cael eu derbyn.

**9.** Dylid nodi, yn ei chyfarfod ar 21 Ebrill 2015, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn y dylid caniatau i fudiadau ardal Amlwch, nad oeddant yn gymwys am gyllieb yn flaenorol, gyflwyno ceisiadau grant o hyn ymlaen.

**10.** Byddai dilyn yr argymhellion uchod yn golygu gwario cyfanswm o £102,766.

| | **ARFAETHEDIG 2015/16** | | **GWIRIONEDDOL 2014/15** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **Nifer** | **£** | **Nifer** |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (Atodiad A) | 97,766 | 21 | 94,178 | 25 |
| Grantiau Bach (Atodiad B) | 5,000 | 5 | 4,000 | 4 |
| | **102,766** | **26** | **98,178** | **29** |

Bydd Swyddogion ar gael yn y cyfarfod i gynghori ar yr argymhellion yn yr Atodiadau.

**11. Y PENDERFYNIADAU SYDD EI ANGEN**

**(a)** Ystyried cymeradwyo’r symiau a argymhellir yn Atodiadau A a B.

**RICHARD MICKLEWRIGHT** **1 GORFFENNAFN 2015**
**TRYSORYDD**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOLYNYS MÔN**

| **Cyf.**<br><br>***Ref.*** | **Enw'r Mudiad**<br><br>***Name of Organisation*** | **Pwrpas y Cais**<br><br>***Purpose of Application*** | **Cost**<br><br>***Cost* (£)** | **Cais am**<br><br>***Request* (£)** | **Sylwadau**<br><br>***Remarks*** | **Swm Awgrymir**<br>***Sum Suggested***<br>**(£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01** | Clwb Peldroed Llangoed<br>*Football Club* | Adnewyddu ystafelloedd newid<br><br>*Renovate changing rooms* | 7,814 | 7,614 | Nid yw'r clwb wedi cyflwyno cyfrifon archwiliedig.<br>*The club has not submitted audited accounts.* | **5,469**<br><br>Yn amodol ar dderbyn cyfrifon wedi eu harchwylio a bodlonrwydd swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y Clwb.<br><br>*Subject to the receipt of audited accounts and the satisfaction of Council officers with regards to the financial position of the Club.* |
| **02** | Canolfan Gymuned David Hughes<br>*Community Centre* | Uwchraddio'r gegin ac ystafell gyfagos<br><br>*Upgrade kitchen and adjacent room* | 5,991 | 7,500 | Mae'r Ganolfan yn bwriadu defnyddio'r ystafell sydd i'w hadnewyddu fel Canolfan Treftadaeth. Maent wedi cynnwys swm o £2,112 ar gyfer ail-baentio ac addurno nad yw'n gymwys i gael grant. Nid ydynt wedi cyflwyno 2 amcangyfrif ar gyfer pob elfen o'r cynllun.<br><br>*The Centre intends to use the refurbished room as a Heritage Centre. They have included a sum of £2,112 for painting and decorating which is not eligible for funding. They have not submitted 2 estimates for all elements of the scheme.* | 70% or gost gymwys hyd at **2,715** yn amodol ar dderbyn rhagor o amcanbrisiau<br><br>*70% of eligible cost up to **2,715** subject to receiving further estimates.* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **04** | Cyngor Plwyf Llangristiolus a Cerrigceinwen<br>*Parish Council* | Creu Parc Chwarae<br><br>*Create Playing Field* | 25,000 | 8,000 | Mae'r Cyngor Plwyf wedi derbyn grant o £10,000 tuag at y cynllun gan Bryn Yr Odyn "Solar Farm".<br><br>*The Parish Council have received a grant of £10,000 from Bryn Yr Odyn "Solar Farm" towards the scheme.* | **8,000** |
| **05** | Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll<br>*Community Council* | Gwaith paratoadol angenrheidiol ar gyfer Neuadd Newydd.<br><br>*Preparatory work necessary for a New Hall.* | 75,000 | 8,000 | Mae'r cyllid y gofynnwyd amdano ar gyfer gwaith paratoadol ac felly mae perygl na fydd y prosiect yn symud ymlaen fel y rhagwelwyd.<br><br>*The funding requested is for preparatory works therefore there is a risk that the project may not progress as anticipated.* | DIM<br>*NIL* |
| **06** | Canolfan Goffa Gymunedol Porthaethwy<br>*Menai Bridge War Memorial Community Centre* | Adnewyddu'r berwr gwres<br><br>*Replace heating boiler* | 4,240 | 3,000 | Adnewyddu'r hen ferwr gyda un mwy modern<br><br>*To replace the dated boiler with a modern boiler.* | **2,968** |
| **07** | Ffederasiwn o Bysgotwyr Môr<br>*Welsh Federation of Sea Anglers* | Cefnogaeth i berson ifanc talentog lleol gyda chostau cystadlu yn Pencampwriaeth y DU.<br><br>*Support for local talented young person with costs of competing the UK Championships* | 892 | 692 | Cynhaliwyd y gystadleuaeth cyn y cyfarfod yma, felly, ddim yn gymwys<br><br>*Competition held prior to this meeting, therefore ineligible.* | DIM<br>*NIL* |
| **08** | Clwb Peldroed Pentraeth<br>*Pentraeth Football Club* | Darparu draen cerrig i atal dŵr fynd ar y cae<br><br>*Provide a stone drain to prevent water getting onto the field* | 2,650 | 2,350 | Ddim yn gymwys wedi derbyn grant yn 2013/2014<br><br>*Not eligible as they received a grant in 2013/2014* | DIM<br>*NIL* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **10** | CRhA Ysgol Esceifiog *PTA* | Prynu popty i'w roi ar ben bwrdd ag offer i roi profiad i ddisgyblion CA1 a KS2 am fwyd, bwyta'n iach a pharatoi bwyd.<br><br>*To purchase table top cooker and equipment so that KS1 and KS2 pupils experience and learng about food, healthy eating and food preparation.* | 726 | 581 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi ysgolion felly ddim yn gymwys oherwydd byddai'n fantais i'r ysgol.<br><br>*The Trust does not support schools therefore not eligible due to being a benefit to the school.* | DIM<br>*NIL* |
| **12** | Pwyllgor Maes Chaware Bodffordd *Playing Field Committee* | Atgyweirio arwyneb llawr diogelwch, prynu seddi a bin sbwriel<br><br>*Repair safety floor surfacing, purchase seating and litter bin.* | 2,041 | 2,041 | Mae'r cais yn datgan mae'r cwmni osodwyd y rhan fwyaf o'r offer ar y safle ar y cychwyn yw'r unig gwmni sy'n gallu gwneud y gwaith atgyweirio ac felly dim ond wedi cyflwyno un amcangyfrif gan y Cwmni hwn i wneud y gwaith.<br><br>*The application states that the company which initially installed the majority of the equipment on site is the only company which is able to carry out the repair work and therefore have only submitted one estimate.* | 70% or gost gymwys hyd at **1,428** yn amodol ar dderbyn rhagor o amcanbrisiau<br><br>*70% of eligible cost up to **1,428** subject to receiving further estimates.* |
| **13** | Partneriaeth Moelfre *Partnership* | Gosod plac bychan i goffa 29 o ddewrion lleol fu ynghlwm ac achub bywydau adeg trychineb y Royal Charter.<br><br>*Put up a memorial plaque in memory of the 29 local heroes involved in the saving of lives during the Royal Charter disaster.* | 837 | 669.60 | | **585** |
| **14** | Clwb Peldroed Iau Tref Amlwch *Town Juniors F C* | Prynu cynwysyddion storio<br><br>*Purchase storage containers* | 4,500 | 3,600 | | **3,150** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **19** | Cymdeithas Lenyddol Bro Goronwy<br>Literary Society | Arian ar gyfer darlithwyr, llogi'r ysgol, treuliau'r ysgrifennydd, argraffu a llogi'r capel.<br>*Funding for lecturer, hiring the school, secretary's expenses, printing and hiring the chapel.* | 200 | 200 | Cyllid arall ar gael ar gyfer y cais hwn<br>*Alternative funding found for this application.* | DIM<br>*NIL* |
| **20** | Cymdeithas Hanes Bro Goronwy<br>*History Society* | Cymorth ariannol tuag at gostau darlithwyr, argraffu, llogi festri Capel, costau ysgrifenyddol.<br>*Financial supports towards the cost of speakers, printing, hire of chapel vestry to hold meetings, secretarial costs.* | 335 | 100 | Cyllid arall ar gael ar gyfer y cais hwn<br>*Alternative funding found for this application.* | DIM<br>NIL |
| **21** | Clwb Criced Bodedern<br>*Cricket Club* | Prynu peiriannau torri gwair<br>*Purchase of mowers* | 8,100 | 6,400 | | **5,670** |
| **22** | Clwb Rhwyfo Beaumaris<br>*Rowing Club* | Prynu ail gwch hir celtaidd<br>*Purchase a second celtic longboat* | 11,194 | 8,000 | | **7,835** |
| **26** | Amlwch Showstoppers | I brynu offer ar gyfer cofnodi sioeau<br>I werthu ac i ddarparu cofnod gweledol o sioeau ar gyfer hyfforddiant a gwerthuso.<br>*To purchase equipment to enable the group to record shows with a view to producing DVDs to sell and to provide a visual record of shows for training and appraisal.* | 2,974 | 2,000 | | **2,000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **27** | Clwb Peldroed Bro Goronwy<br>*Football Club* | I gwblhau atgyweirio y "Portocabin"<br>Gosod Llawr, 2 ddrws ac 1 ffenest.<br>*To complete renovation of Portocabin*<br>*New flooring, 2 doors and 1 window.* | 2,324 | 1,859.20 | | **1,626** |
| **28** | Cyngor Cymuned Valley<br>*Community Council* | Troi ystafell yn y pafiliwn ym Mharc Mwd i Ystafell gyfarfod/gymunedol.<br>*Convert room in the pavilion at Mud Park to a meeting/community room.* | 4,090 | 2,927 | Mae'r cynllun yn cynnwys swm o £1,500 ar gyfer ail-baentio ac addurno sydd ddim yn gymwys i dderbyn grant<br>*The scheme includes a sum of £1,500 for painting and decorating which is not eligible for funding* | **1,813** |
| **29** | Heneiddio'n Dda Ynys Môn<br>*Age Well Anglesey* | Cyllido bws mini ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yng Nghanolfannau Heneiddio'n Dda Amlwch a Llangefni.<br>*To fund a mini bus for service users within the Age Well centre of Amlwch and Llangefni.* | 45,000 | 2,500 | Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda yn wasanaeth sy'n seiliedig yn y gymuned i leihau unigedd cymdeithasol, adeiladu capasiti yn y gymuned, cyfalaf cymunedol a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac wedi eu grymuso yn eu cymunedau eu hunain. Yn ogystal, mae'n darparu canolbwynt a chyfleusterau i hyrwyddo mwy o weithgaredd yn y gymuned leol. Hyd yn hyn, maent wedi derbyn £42,500 tuag at y gost.<br>*The Age well programme is a community based service that reduce social isolation, build community capacity, social capital and develop social networks so that people feel safe and empowered in their own communities. It provides a focal point and facilities to foster greater local community activity. They have so far received £42,500 towards the cost.* | **2,500** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **30** | Clwb Arlunio Moelfre<br>*Art Club* | Prynu byrddau arddangos symudol<br>*Purchase mobile display boards.* | 2,012 | 2,012 | | **1,408** |
| **31** | Canolfan Geidiau Ynys Môn<br>*Anglesey Guide Centre* | Gwella'r adnoddau yn yr Ystafell Weithgareddau .Insiwleiddio'r adeilad a darparu goleuadau a gwres mwy effeithlon.<br>*Improve facilities in the Activity Room, insulate the building and provide more efficient lighting and heating.* | 11,885 | 8,000 | | **8,000** |
| **33** | Cynllun Cyfeirio Ynys Môn<br>*Anglesey Referral Scheme* | Darparu cymorth 1-1 i blant o oed cyn-ysgol a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>*To provide 1-1 support for children of a pre-school age with Additional learning needs.* | 45,000 | 5,000 | Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at gyllid craidd sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor Sir, felly ddim yn gymwys<br>*The funding would be to top up core funding provided by the County Council, therefore not eligible* | DIM<br>*NIL* |
| **34** | Neuadd Gymuned yr Eglwys Llanfairpwllgwyngyll Church Hall/Community Centre | Adnewyddu'r to<br>*Replacement Roof* | 25,000 | 8,000 | Maent wedi derbyn grantiau gwerth £17,000 tuag at y cynllun.<br>*Have received grants totalling £17,000 towards the scheme.* | **8,000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **35** | Ffrindiau Parc Rhosybol | Datblygu cae chwarae.<br>*Develop play area.* | 35,489 | 8,000 | Maent wedi derbyn gwerth £17,500 o grantiau tuag at y cynllun. Heb gynnwys cyfrifon, polisi cyfleodd cyfartal na copi o'r polisi Iaith.<br><br>*Have received grants totalling £17,500 towards the scheme. Have not included accounts, equal opportunities policy, or language policy*. | **8,000**<br>Yn amodol ar dderbyn polisiau perthnasol a chyfrifon wedi'u harchwylio a bodlonrwydd swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y clwb<br><br>*Subject to the receipt of relevant policies and audited accounts and the satisfaction of council officers with regards to the financial position of the club.* |
| **37** | Clwb Criced Porthaethwy<br>*Menai Bridge Cricket Club* | Prynu peiriant torri gwair a gwahanol ddarnau ategol.<br><br>*Purchase mower and various attachments.* | 7,373 | 5,873 | | **5,161** |
| **38** | Cyngor Tref Beaumaris<br>*Town Council* | Gwella'r cae chwarae Beaumaris<br>*Improve Beaumaris playing field* | 34,840 | 8,000 | £6,000 grant wedi'i dderbyn yn dal i adael bwlch sylweddol i'w ariannu.<br>*£6,000 grant funding received still leaves a large funding gap.* | **£8,000** |
| **39** | Rhieni a Ffrindiau/*Parents and Friends of* CLWB CYBI | Prynu offer a darparu gweithgareddau ar gyfer aelodau o'r Clwb.<br><br>*Purchase equipment and provide activities for members of the club.* | 500 | 500 | Diffyg gwybodaeth ar y cais<br>*Lack of information on the application.* | DIM<br>*NIL* |
| **41** | Cyngor Cymuned Moelfre<br>*Community Council* | Prynu offer chwarae<br><br>*Purchase play equipment* | 8,000 | 8,000 | Ddim yn gymwys gan eu bod wedi derbyn grant yn 2014/2015.<br><br>*Not eligible as they received a grant in 2014/2015.* | DIM<br>*NIL* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **42** | Tudur Cyf. (Canolfan Ebeneser) | Darparu mynediad i'r anabl i'r prif fynedfa a throsi arwynebedd llawr mesanîn i gyfleuster ychwanegol<br>*Provision of disabled access to main entrance, conversion of mezzanine floor area into an additional facility.* | 11,345 | 9,076 | Angen prawf perchnogaeth o'r adeilad.<br>*Need to provide proof of ownership of the building.* | **7,941** |
| **43** | Cor Meibion Y Foel | I gynorthwyo'r Cor i gyhoeddi a marchnata ail gryno ddisg.<br>*To assist the Choir to produce and market second CD.* | 2,640 | 2,112 | Diffyg gwybodaeth ar y cais.<br>*Lack of information on the application.* | DIM<br>*NIL* |
| **44** | Canolfan Hamdden Beaumaris a'r Cylch<br>*Beaumaris and District Leisure Centre.* | Gosod drysau ffrynt alwminiwm gyda gwydr dwbl a weithredir gan "push pad" i fynedfa'r adeilad<br>*Install aluminium double-glazed push pad operated front doors to the entrance of the building.* | 6,183 | 6,000 | Ddim yn gymwys wedi derbyn grant yn 2013/2014<br>*Not eligible have received a grant in 2013/2014.* | DIM<br>*NIL* |
| **45** | Grwp Chwarae cyn-ysgol Amlwch<br>*Pre-School Playgroup* | Costau rent ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn ail-fuddsoddi yn y Cynllun Sicrwydd Ansawdd ac i wella y man allannol.<br>*To cover cost of rent for coming year in order to re-invest in Quality Assurance Scheme and to enhance the outdoor area.* | 3,250 | 2,730 | Nid yw Grwpiau Cyn Ysgol wedi derbyn cefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth yn flaenorol.<br>*Pre-School Groups have not previously been supported by the Trust.* | DIM<br>*NIL* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **46** | Clwb Plant Bach Llangefni | Byrddau, cadeiriau ac adnoddau dysgu i blant bach.<br><br>*Tables, chairs and learning materials for toddlers.* | 750 | 750 | Diffyg gwybodaeth ar y cais<br><br>*Lack of information on the application.* | DIM<br>*NIL* |
| **47** | Cylch Teulu Families Circle | Darparu offer ar gyfer plant anabl yn y parc lleol oherwydd nid oes offer addas ar gael ar hyn o bryd.<br><br>*Provide disabled equipment for children within the local park as there currently isn't any suitable equipment available.* | Anhysbys Cafwyd rhai amcangyfrifon<br><br>Unknown Some estimates provided | Anhysbys - Heb ei nodi<br><br>*Unknown - not stated* | Anodd cefnogi'r cais oherwydd nad yw'r costau wedi cael eu hamlinellu ac nid yw'r cynllun wedi nodi'r swm y maent yn gofyn amdano. Hefyd, nid yw lleoliad y parc wedi'i nodi. Dim digon o wybodaeth i gefnogi.<br><br>*Difficult to support as the cost of the scheme has not been highlighted, and the scheme has not indicated how much they are requesting. The location of the park has also not been identified. Insufficient information provided to support.* | DIM<br>*NIL* |
| **49** | Sefydliad Deaf Cambrian<br>*Deaf Cambrian foundation* | Gwella datblygiad addysgol, cymdeithasol a chorfforol plant byddar.<br><br>*To enhance the educational, social and physical development of deaf children.* | 25,000 | Dewisol<br><br>*Discretionary* | Cynigir y Gwasanaeth ar hyd a lled Cymru. Oherwydd lefel isel y cyfeiriadau, mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn Ynys Môn wedi cael eu tynnu'n ôl oherwydd ei bod yn anodd profi gwerthu am arian.<br><br>*The Service is offered throughout Wales, due to a low number of referrals similar Service Level Agreements within Anglesey have been withdrawn as difficult to establish value for money.* | DIM<br>*NIL* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **50** | Ffrindiau Llangoed<br>*Friends of Llangoed* | Prynu Offer chwarae<br>*Purchase Play Equipment.* | 7,854 | 6,283 | Heb gynnwys cyfrifon, polisi cyfleoedd cyfartal a pholisi Iaith.<br>*Have not provided accounts, equal opportunity policy and language policy.* | **5,497**<br>Yn amodol ar dderbyn polisiau perthnasol a chyfrifon wedi'u harchwylio a bodlonrwydd swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y clwb.<br>*Subject to the receipt of relevant policies and audited accounts and the satisfaction of Council officers with regards to the financial position of the Club.* |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad Name of Organisation | Pwrpas y Cais Purpose of Application | Cost Cost (£) | Cais am Request (£) | Sylwadau Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **03** | Tyddyn Mon | Creu gŵyl gerdd ar gyfer Tyddyn Môn. Annog a hyrwyddo oedolion gydag Anableddau Dysgu i ymgysylltu a chymryd rhan yn yr ŵyl, ennill sgiliau newydd a datblygu eu bywyd cymdeithasol a'u profiadau.<br><br>*To create a music festival for Tyddyn Mon. To encourage and facilitate adults with Learning Disabilities to engage and participate in the festival, gaining new skills and developing their social life and experiences.* | 10,000 | 3,000 | Mae'r ŵyl yn annog oedolion gydag anableddau dysgu i ennill sgiliau newydd a datblygu eu sgiliau cymdeithasol a'u profiadau.<br><br>*The festival encourages adults with learning disabilities to gain new skills and develop their social skills and experiences.* | **1,000** |
| **09** | Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru<br>*Red Squirrels Trust Wales Ltd* | Cyllido dau gontractwr am 6 mis i:<br>a) Dod o hyd i a chael gwared ar wiwerod llwyd sy'n croesi i Ynys Môn;<br>b) Monitro iechyd gwiwerod coch;<br>c) Gweithio gyda busnesau a chymunedau i gynnal twristiaeth werdd mewn perthynas â gwiwerod coch.<br><br>*Funding for two contractors for 6 months to:*<br>***a)*** *find and remove grey squirrels crossing onto Anglesey;*<br>***b)*** *Monitor red squirrel health;*<br>***c)*** *Work with businesses and communities to maintain green tourism linked to red squirrels.* | 20,000 | 8,000 | | **1,000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **25** | Gwyl Bwyd Biwmaris<br>*Beaumaris Food Festival* | Cynorthwyo gyda chostau sefydlu gŵyl fwyd Biwmares 2015<br><br>*To assist with the setup costs of the 2015 Beaumaris food festival* | 26,877 | 6,000 | | **1,000** |
| **32** | Cymdeithas MS<br>*MS Society* | Cyllido dosbarthiadau ymarfer a gynhelir yng Nghanolfan Hamdden Biwmares i bobl gyda MS.<br><br>*To finance exercise classes held in Beaumaris Leisure Centre for people with MS.* | 2,020 | 1,020 | Mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan bobl sydd eisoes wedi cael cymorth yn dweud bod y technegau y maent wedi eu dysgu yn y dosbarthiadau wedi eu cynorthwyo i osgoi risgiau a chodymau. Mae hefyd wedi bod yn gyfle ar gyfer cynhwysiant ariannol a rhannu profiadau rhwng pobl sy'n dioddef gydag MS.<br><br>*Evidence submitted from people previously supported state that the techniques they have learnt within the classes have helped them to avoid risks and falls. It has also provided an opportunity for social inclusion and sharing of experiences between people who suffer with MS.* | **1,000** |
| **40** | Gwyl Bwyd Mor<br>*Menai*<br>*Seafood Festival* | Mynediad am ddim i'r ŵyl bwyd môr<br><br>*Free access seafood festival* | 41,833 | 6,000 | | **1,000** |
| | | | | | **Cyfanswm/*Total*** | **5,000** |

**<u>YR AMODAU AR GYFER DOSBARTHU GRANTIAU O YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</u>**

**<u>gan gynnwys amodau penodol ar gyfer grantiau tuag at waith cyfalaf a chyfleusterau cymuned</u>**

## 1. Y RHEINI FEDR HAWLIO GRANT AC AMODAU'R CYMORTH

Rhoddir cymorth ariannol i fudiadau adloniadol, elusennol, diwylliannol a chrefyddol ar Ynys Môn.

**a)** Dim ond dan un category neu ddyraniad y rhoddir cymorth ariannol.

**b)** Ni fydd grantiau'n cael eu rhoddi tuag at waith ar adeiladau eglwys neu gapeli sy'n cael eu defnyddio i bwrpas addoli neu i bwrpas unrhyw enwad.

**c)** Ni ddylid rhoi cymorth grant i brynu offer a dillad i unigolion. Y mudiad ei hun ddylai dalu am yr offer hwn.

**ch)** Ni chaiff cais ei ystyried oni bai bod y mudiad wedi cyflwyno'r cyfrifon perthnasol ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano o bryd i'w gilydd.

**d)** Rhaid amgáu o leiaf dau bris gwahanol gydag unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith adeiladu neu brynu offer.

**dd)** <u>Ni ystyrir ceisiadau fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad diwethaf a fydd yn derbyn cais</u>.

**e)** Bydd grantiau'n cael eu dyrannu ar sail statws TAW yr ymgeisydd, h.y. os gall ymgeiswyr adennill TAW, yna ni fydd modd cael grant tuag ato. Os yw'r ymgeisydd yn cael grant ar y sail nad yw'n gofrestredig i dalu TAW ond bod pethau'n newid a hwythau'n cael eu cofrestru i dalu TAW ac yn gallu adennill y TAW ar y grant, bydd angen rhoi gwybod i Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a bydd y TAW yn cael ei ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

## 2. GRANTIAU CYFALAF

**a)** Ni ddylid neilltuo dim dan bennawd yr hyn sydd ar gael i wneud gwaith cyfalaf oni bai bod y swm a neilltuir ynghyd ag unrhyw arian arall fo ar gael, yn ddigon i gwblhau'r cynllun o fewn cyfnod amser rhesymol na fydd yn hwy na'r cyfnod a nodir yn (ch) isod.

**b)** Ni ystyrir unrhyw gais am gymorth o unrhyw gronfa os yw'r gwaith y gwneir y cais amdano eisoes wedi cychwyn.

**c)** Ni chaiff cais am ganiatâd i ddechrau gwaith cyn cyflwyno cais am ddyraniad gael ei ystyried oni bai fod swyddog priodol o'r Cyngor wedi tystiolaethu fod argyfwng pendant yn bodoli, a, phan fod caniatâd yn cael ei roi, ni chaiff hyn ei ddehongli fel bod yn rhwymedig ar yr Ymddiriedolaeth i wneud dyraniad pan fydd y ceisiadau am ddyraniadau yn cael eu hystyried.

**ch)** Rhaid cwblhau cynllun cyfalaf o fewn 4 blynedd i ddyddiad dyfarnu'r grant. Bydd unrhyw swm heb ei ddefnyddio ar ôl pedair blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth.

**d)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos fod y cynllun yn cwrdd â gofynion technegol y Cyngor Sir.

**dd)** Pan fod angen caniatâd cynllunio, rhaid i'r ymgeiswyr wneud yn siŵr bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi.

**e)** Rhaid i'r gwaith fod yn 'agored' fel bod modd i gynrychiolwyr y Cyngor Sir ei archwilio pryd bynnag y dymunent.

**f)** Rhaid sicrhau fod y llyfrau a'r cyfrifon ynghylch y gwaith ar gael i gynrychiolwyr y Cyngor Sir gael golwg arnynt, pe dymunent wneud hynny.

**2.1 GRANTIAU CYFALAF TUAG AT GYFLEUSTERAU CYMUNED**

**a)** Mae'r grantiau yma'n berthnasol i Ganolfannau Cymuned a Neuaddau Pentref, cyfleusterau chwaraeon, celfyddydau, treftadaeth a chymdeithasol sydd ar gael am ddim i'r gymuned, neu fod taliadau blynyddol neu achlysurol yn ymarferol.

**b)** Bod prawf gwirioneddol o anghenion ariannol a chymdeithasol am y cyfleusterau a bod cefnogaeth leol i'r cais a bod maint a natur y gefnogaeth yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Sir.

**c)** Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas/corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sy'n o leiaf 21 mlynedd.

Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth.

**ch)** Bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos y gallent gwrdd â'r costau cynnal am o leiaf dair blynedd ar ôl dyrannu'r cymhorthdal (gan ystyried unrhyw grantiau sydd ar gael).

**d)** Ni fydd cyfleusterau, os cawsant grant yn y ddwy flynedd a aeth heibio, yn cael eu hystyried oni phrofir iddo gael ei nodi yn y cais gwreiddiol y rhoes y Cyngor Sir ei gymeradwyaeth iddo fod y datblygiad yn un fesul cam dros gyfnod o amser.

**dd)** Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys i'w hystyried ond, os yn briodol, gellir eu cyfeirio at Gynllun Grantiau i Gynlluniau Mawr y Loteri Cenedlaethol, os bydd y Cyngor Sir yn sefydlu cronfa o'r fath.

**e)** Ni roddir grant ar gyfer darpariaeth gyffelyb yn yr un gymuned oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn gofyn am ystyriaeth arbennig y Cyngor.

**f)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud o'r cyfleusterau a ddarperir.

**ff)** Rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd ag unrhyw wahaniaeth rhwng y grant a chostau'r cynllun wrth fodd y Cyngor Sir ac o fewn 12 mis i dderbyn y cynnig amodol o grant.

**g)** Bydd gan y Cyngor hawl i dynnu'r cynnig yn ôl os meddylir nad yw'r ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech i symud ymlaen â'r cynllun.

**ng)** Rhaid codi yswiriant i'r cyfleusterau fel bod modd darparu rhai eraill yn eu lle pe caent eu difrodi neu eu difetha'n llwyr gan dân neu gan unrhyw achos arall.

**h)** Ni chaniateir defnyddio'r grantiau na'r cyfleusterau sy'n derbyn grant at bwrpas sy'n wahanol i'r pwrpas hwnnw y rhoddwyd iddo grant oni fydd y Cyngor Sir wedi rhoddi ei ganiatâd i'r pwrpas gwahanol a, phe gwneid defnydd newydd o'r cyfleusterau neu pe ceid gwared â nhw, yna mae'n bosibl bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**i)** Wedi i'r cynllun dderbyn caniatâd, ni fydd modd ei newid, ac eithrio yn achos newidiadau bychain, heb yn gyntaf dderbyn caniatâd y Cyngor Sir, a, phe cai'r cynllun ei newid heb awdurdod, efallai bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**l)** Ni fydd modd symud ymlaen gyda datblygiadau ar y cyd na gyda chynlluniau ar y cyd onid yw'r holl awdurdodau eraill sy'n rhan o'r datblygiad/cynllun yn cynnig sicrwydd pendant o'u cefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig lle mae ceisiadau Loteri, Ewrop a'r Cynulliad yn cael eu hystyried neu'n ffurfio rhan o'r cais.

**ll)** Os rhoddir grant tuag at lecyn chwarae, bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned perthnasol drefnu i gael archwiliad blynyddol o'r offer, gan berson cymwys, i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â gofynion y Safonau. Os nad yw'n cyfarfod y Safonau, bydd gofyn i'r Cyngor Cymuned weithredu ar y gwelliannau a argymhellir.

Ni ystyrir cais arall am grantiau oddi wrth Cyngor Cymuned i ddatblygu rhagor ar lecyn chwarae hyd nes bydd y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Bydd gan y Cyngor Sir hawl i ofyn am dystiolaeth fod yr archwiliad blynyddol a'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud.

## 3. MUDIADAU CHWARAEON

**a)** Ystyrir rhoi cymorth ariannol tuag at y canlynol:-

**i)** Cymorth tuag at y costau teithio hynny a gaiff cynrychiolwyr wrth fynychu cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**ii)** Cymorth hefo costau hyfforddiant safon uchel i unigolion a doniau mewn chwaraeon pan na fo'r hyfforddiant ar gael yn lleol.

**iii)** Gwella a chynnal adeiladau a thiroedd a gofalu am offer.

## 4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL I GYHOEDDI LLYFRAU

**a)** Rhaid rhoddi sylw pennaf i'r cwestiwn hwn - a fydd y cyhoeddiad yn berthnasol ac o fudd i Ynys Môn. Rhaid i'r llyfr gynnwys o leiaf un o'r ystyriaethau isod:-

- Bod yn berthnasol o safbwynt diwylliant neu hanes Ynys Môn;
- Cymorth i ddatblygu twristiaeth;

- Gwerth addysgol - yn briodol i fyfyrwyr ei ddefnyddio;
- Ei ddefnyddio yng ngweithgareddau datblygu economaidd y Cyngor;
- Cymorth i hyrwyddo datblygiad yr Iaith Gymraeg a pholisïau dwyieithrwydd.

**b)** Rhaid i'r pwnc fod yn un newydd ac, yn ogystal, rhaid sicrhau bod ganddo apêl eang. Os nad yw'n bwnc newydd, rhaid bod agwedd newydd iddo.

**c)** Ni roddir unrhyw gyfraniad i unigolion sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylid gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau Cymru yn y lle cyntaf.

**5. CATEGORÏAU NA CHÂNT EU HYSTYRIED**

**a)** Ni ystyrir rhoddi cymorth ariannol i Gynghorau Cymuned oni wneir hynny o'r Gronfa Cyfleusterau Cymuned.

**b)** Ni ellir ystyried tai capel, ficerdai nac adeiladau cyffelyb.

**ADOLYGWYD EBRILL 2015**